



**CLEFT REGISTRY & AUDIT NETWORK**

## **Cronfa ddata CRANE**

Taflen wybodaeth i rieni a chleifion

Arweiniad i sut yr ydym yn cysylltu â  
chofnodion swyddogol eraill am blant sydd â  
gwefus hollt a thafnod hollt



Tîm Prosiect CRANE



CLEFT REGISTRY & AUDIT NETWORK

## Cyflwyniad

Mae'r daflen hon yn esbonio sut y byddwn yn casglu gwybodaeth o gronfeydd data a chofnodion swyddogol eraill. 'Cyswllt-data' ydi'r enw am y ffordd hon o gasglu gwybodaeth. Rydym yn disgrifio:

- pam ein bod yn cysylltu â chronfeydd data a chofnodion eraill;
- y cofnodion yr ydym yn cysylltu â nhw ar hyn o bryd a'r cofnodion y bwriadwn gysylltu â nhw yn y dyfodol agos;
- y dewisiadau sydd gennych o ran bod gwybodaeth am eich plentyn yn cael ei chysylltu â chronfeydd data eraill; a
- sut yr ydym yn diogelu eich preifatrwydd.

## Pam rydym yn cysylltu â chofnodion swyddogol eraill?

Gyda'ch cytundeb chi, byddem yn hoffi dilyn iechyd ac addysg eich plentyn drwy gysylltu â'u cofnodion swyddogol sydd yng ngofal y gyfundrefn addysg ac iechyd.

Mae cyswllt-data yn rhoi mwy o wybodaeth i ni am y triniaethau y mae plant sydd â gwefus hollt neu daflod hollt yn eu derbyn, yn ogystal ag am ddeilliannau'r triniaethau hynny. Er enghraifft, mae asesiadau addysgol plant yn dweud wrthym am eu lleferydd a'u hiaith, elfennau y gallai'r gofal iechyd a gânt ddylanwadu arnynt.

Trwy gysylltu data, mae modd gweld bylchau yn y ddarpariaeth o ofal iechyd. O ran addysg, mae'n dangos bylchau yn y cymorth ychwanegol y gallai plant sydd â gwefus neu daflod

holtt elwa ohono. Nid yw gwybodaeth o'r fath hon ar gael i'ch tîm holtt lleol.

## Cysylltu rhwng cronfa ddata CRANE a chofnodion eraill

Mae'r cofnodion swyddogol yr ydym yn cysylltu â nhw ar hyn o bryd yn cynnwys y canlynol. Mae rhagor o fanylion am y cofnodion hyn ar dudalen polisi preifatrwydd ein gwefan ar [www.crane-database.org.uk/](http://www.crane-database.org.uk/).

<b>Cofnodion</b>	<b>Sefydliad</b>	<b>Y wybodaeth a gasglwn</b>
Ystadegau Episodau Ysbyty	GIG Digidol	Pan aiff pobl i'r ysbyty, am faint o amser maen nhw yn yr ysbyty, y diagnosis a'r driniaeth.
Ystadegau Cymru Episodau Cleifion	Canolfan Wybodaeth Cymru	Pan aiff pobl i'r ysbyty, am faint o amser maen nhw yn yr ysbyty, y diagnosis a'r driniaeth.
Y gofrestr marwolaethau	Swyddfa Ystadegau Gwladol	Dyddiad ac achos marwolaethau.
Cronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion	Adran Addysg	Gwybodaeth o bob ysgol a gynhelir gan y wladwriaeth yn Lloegr, gan gynnwys gwybodaeth am y boblogaeth, ffactorau cymdeithasol ac economaidd, presenoldeb yn yr ysgol, cyrhaeddiad yn yr ysgol ac anghenion addysgol arbennig.

## Cofnodion y bwriadwn gysylltu â nhw yn y dyfodol agos

<b>Cofnodion</b>	<b>Sefydliad</b>	<b>Y wybodaeth a gasglwn</b>
Rhaglen Sgrinio Clyw Babanod Newydd-anedig	Iechyd Cyhoeddus Lloegr	Canlyniad y sgrinio clyw a gaiff y rhan fwyaf o fabanod yn Lloegr o fewn pedair i bum wythnos ar ôl eu geni.

Data deintyddol

Awdurdod Gwasanaeth  
Busnes y GIG

Gwybodaeth am y mynediad  
sydd gan blant sydd â gwefus neu  
dafnod hollt at ofal deintyddol  
rheolaidd, gan ddeintyddion y tu  
allan i'r ysbyty.

## Sut rydym yn cysylltu â chofnodion eraill?

Byddwn yn cysylltu â data trwy anfon ychydig o wybodaeth adnabyddadwy am eich plentyn at y sefydliad sy'n cadw'r cofnodion swyddogol. Mae'r wybodaeth adnabyddadwy a anfonwn ymlaen yn cynnwys eu henw, eu dyddiad geni a'r cod post. Os byddwn yn cysylltu â chofnodion y GIG, byddwn hefyd yn cynnwys rhif GIG eich plentyn er mwyn gwneud yn siŵr fod y gyfatebiaeth rhwng cofnodion yn gywir. Ni fyddwn yn pasio unrhyw wybodaeth arall ymlaen.

Mae cyswllt-data yn gweithio ar ei orau os bydd manylion personol eich plentyn yn gyfredol. Tua unwaith y flwyddyn, byddwn yn gofyn i gronfeydd data gweinyddol canolog y GIG, trwy Wasanaeth Demograffeg Personol Digidol y GIG ([www.digital.nhs.uk/services/demographics](http://www.digital.nhs.uk/services/demographics)), i wirio bod gennym bost cod cyfredol ar gyfer eich plentyn. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn rhannu manylion cod post, rhif GIG a rhyw. Yna, bydd GIG Digidol yn anfon atom unrhyw godau post sydd ganddynt ar ffeil ar gyfer y teulu. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau bod cofnodion eich plentyn yn gyfredol ac yn cyfateb i unrhyw gofnodion eraill y byddwn yn cysylltu â nhw.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am y cofnodion swyddogol y bwriadwn gysylltu â nhw, ewch i'n gwefan ([www.CRANE-Database.org.uk](http://www.CRANE-Database.org.uk)).



## **Gewch chi ddweud na i un, neu i bob un, o'r opsiynau cyswllt-data?**

Cewch. Chi biau'r dewis. Cewch ddweud ia neu na, a byddwn yn parchu eich penderfyniad.

Medrwnch wneud penderfyniad am y gwahanol fathau o gyswllt-data ar wahân pan fyddwch chi'n llenwi'r ffurflen ganiatâd.

Fodd bynnag, mae prosiect cronfa ddata CRANE yn gweithio ar ei orau pan fyddwn yn derbyn yr holl wybodaeth sydd ar gael am y trinaethau a'r deilliannau ar gyfer pob plentyn a anwyd â gwefus neu daflod hollt. Gobeithiwn y gwnewch chi gytuno i gymryd rhan yn y cyswllt-data oherwydd, trwy wneud hynny, bydd yn helpu pob ysbyty i wella ansawdd y gofal a ddarparant i'r rhai sydd â gwefus neu daflod hollt, gan gynnwys eich plentyn eich hun, yn awr ac yn y dyfodol.

Os yw'n well gennych beidio â chymryd rhan, ni fyddwn yn rhannu unrhyw wybodaeth am eich plentyn ac ni fyddwn yn cysylltu â chofnodion swyddogol eraill a gedwir am eich plentyn.

Unwaith y bydd eich plentyn yn ddigon hen, caiff benderfynu a yw'n dymuno i wybodaeth mewn cofnodion swyddogol eraill gael ei chysylltu â'r wybodaeth yr ydym ni'n ei chadw.

Cewch chi, neu'ch plentyn, gysylltu â ni unrhyw bryd i newid eich penderfyniad ynghylch cyswllt-data. Nid oes raid i chi roi rheswm dros newid eich penderfyniad, ac ni fydd yn effeithio ar y gofal y bydd eich plentyn yn ei dderbyn. Rhestrir ein manylion cyswllt ar dudalen olaf y daflen hon.

### **Am ba hyd y byddwn ni'n cadw'r wybodaeth?**

Gall y driniaeth i wefus hollt neu daflod hollt eich plentyn gymryd blynyddoedd lawer, a pharhau nes y bydd yn oedolyn. Byddwn yn casglu gwybodaeth hyd at ben-blwydd eich plentyn yn 16 oed. Yn unol â Chod Ymarfer Rheoli Cofnodion y GIG ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2016, yn achos cofnodion o salwch hirdymor, byddwn yn cadw cofnodion iechyd eich plentyn hyd at eu pen-blwydd yn 46 oed. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i [www.digital.nhs.uk/data-and-information/looking-after-information/data-security-and-information-governance/codes-of-practice-for-handling-information-in-health-and-care/records-management-code-of-practice-for-health-and-social-care-2016](http://www.digital.nhs.uk/data-and-information/looking-after-information/data-security-and-information-governance/codes-of-practice-for-handling-information-in-health-and-care/records-management-code-of-practice-for-health-and-social-care-2016).



## Allwch chi weld y wybodaeth a gasglwyd gennym trwy gysylltiadau â chofnodion eraill?

Gallwch, cewch ofyn am gopi o'r wybodaeth sydd gennym am eich plentyn. Cewch hefyd ofyn i ni newid, neu ddileu, unrhyw wybodaeth sy'n anghywir.

Pan fydd eich plentyn yn hŷn, mae'n bosib y gwnânt ofyn am gael gweld copi o'u cofnod. Mae croeso iddyn nhw wneud hynny drwy ddefnyddio'r manylion ar ein gwefan ([www.crane-database.org.uk](http://www.crane-database.org.uk)).

## Sut byddwn ni'n cadw gwybodaeth eich plentyn yn ddiogel?

Mae gennym bolisi cyfrinachedd a diogelwch caeth iawn. Mae'n cydymffurfio â'r Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol a chanllawiau'r Adran Iechyd.

Rydym wedi ein lleoli yng Ngholeg Brenhinol y Llawfeddygon (RCS) yn Llundain. Mae'r wybodaeth a gasglwn am eich plentyn yn cael ei storio i ni ar system gyfrifiadurol ar-lein ddiogel a ddatblygwyd, ac a gynhelir, gan *Crown Informatics Limited*, a leolir yn Retford, Swydd Nottingham. Yna, caiff y wybodaeth ei throsglwyddo o'r system honno i weinydd diogel yn RCS i'w dadansoddi gennym.

Caiff y gweinydd diogel ei warchod gan fur cadarn ac offer arbennig i warchod y gweinydd rhag mynediad gan bobl heb awdurdod o'r tu allan i'r prosiect.

Dim ond y bobl sy'n ymwneud â darparu gofal mewn perthynas â gwefus hollt neu daflod hollt eich plentyn, a nifer fach o staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phrosiect cronfa ddata CRANE, fel y cymrodyr ymchwil, a dau aelod o *Crown Informatics Ltd*, sy'n gallu gweld holl fanylion cofnod eich plentyn ar gronfa ddata CRANE. Mae angen i'r cymrodyr ymchwil gael mynediad at wybodaeth eich plentyn er mwyn dadansoddi'r data, a *Crown Informatics Ltd* sy'n darparu'r gronfa ddata. Mae pawb sy'n gallu cael mynediad at gofnod eich plentyn wedi llofnodi contractau sy'n sicrhau bod y wybodaeth am gofnod eich plentyn yn parhau'n gyfrinachol. (Mae *Crown Informatics Ltd* yn darparu cronfa ddata CRANE gyda Pholisi Diogelwch Lefel System (SLSP) ar waith. Mae'r SLSP yn fframwaith i sicrhau bod y wybodaeth a gaiff ei chasglu a'i chadw ar gyfer cronfa ddata CRANE yn cael ei rheoli yn ddiogel ac yn effeithiol gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon yn Lloegr er mwyn diogelu cyfrinachedd cleifion.)

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i bob aelod o'n staff ni a phob aelod o staff *Crown Informatics Ltd*, sydd â mynediad at gofnodion CRANE, gadw'r holl wybodaeth bersonol a welant yn gyfrinachol ac yn ddiogel. Rhaid i ni hefyd wneud hyn o dan ein contractau cyflogaeth gyda'r RCS.

Yn ein hadroddiadau, bydd y wybodaeth am bob plentyn yng nghronfa ddata CRANE yn cael ei rhoi at ei gilydd. Bydd yr adroddiadau yn seiliedig ar grwpiau, er enghraifft, fesul ysbyty.



Ni fyddwn yn defnyddio unrhyw wybodaeth yn ein hadroddiadau y gellid ei defnyddio i'ch adnabod chi neu'ch plentyn. Gallwch weld copïau o'n hadroddiadau drwy ymweld â'n tudalen cyhoeddiadau

([www.crane-database.org.uk/publications](http://www.crane-database.org.uk/publications)).

## Ein hymrwymiad i chi ac i'ch plentyn

- Wrth ganiatáu i ni gasglu gwybodaeth am y gofal a gaiff eich plentyn am eu gwefus neu daflod hollt â'u cofnodion swyddogol, fe wnewch hynny o'ch gwirfodd a chewch chi a'ch plentyn dynnu'r wybodaeth am eich plentyn o'r gronfa ddata unrhyw bryd, heb orfod rhoi rheswm, a heb i hynny amharu ar y driniaeth a gânt.
- Ni fyddwch chi na'ch plentyn yn cael eich adnabod o'n canfyddiadau na'n cyhoeddiadau.
- Yn yr un ffordd ag y mae'n rhaid i'r clinigwyr sy'n darparu gofal i'ch plentyn gadw gwybodaeth eich plentyn yn gyfrinachol, mae'n rhaid i ninnau hefyd gadw gwybodaeth eich plentyn yn gyfrinachol.
- Mae yna banel annibynnol – y Grŵp Datblygu Hollt. Eu gwaith nhw yw edrych ar beth yr ydym yn ei wneud, a sut yr ydym yn ei wneud, er mwyn gwneud yn siŵr bod eich hawliau chi a hawliau eich plentyn yn cael eu hamddiffyn. Er enghraifft, maent yn gwneud yn siŵr fod pob dadansoddiad o wybodaeth eich plentyn yn cael ei wirio er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r safonau moesegol a gwyddonol uchaf.



- Nod ein holl waith yw bod o fudd i'r gofal a gaiff cleifion i'w gwefus neu daflod hollt, ac nid yw'n gwneud elw.

### Sut mae cael rhagor o wybodaeth?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein gwaith cyswllt-data, cewch ragor o wybodaeth ar ein gwefan yn [www.crane-database.org.uk](http://www.crane-database.org.uk).

Gallwch hefyd ysgrifennu atom neu'n ffonio trwy ddefnyddio'r manylion isod.

CRANE Database  
Clinical Effectiveness Unit  
The Royal College of Surgeons of England  
35-43 Lincoln's Inn Fields  
Llundain  
WC2A 3PE

Ffôn: 020 7869 6610

Ebost: [crane@rcseng.ac.uk](mailto:crane@rcseng.ac.uk)

Os oes gennych gwestiynau cyffredinol am wefus neu daflod hollt, medrwch gael rhagor o wybodaeth drwy siarad ag:

- aelod o'ch tîm hollt lleol; neu
- Cymdeithas y Wefus a Thafnod Hollt (CLAPA).

Ffôn: 020 7833 4883

Ebost: [info@clapa.com](mailto:info@clapa.com)

Gwefan: [www.clapa.com](http://www.clapa.com)



## Beth fydd yn digwydd nesaf?

- Bydd aelod o'r tîm hollt yn gofyn i chi lofnodi ffurflen ganiatâd i gofnodi a ydych yn hapus i ni roi gwybodaeth am wefus hollt neu daflod hollt eich plentyn yn y gronfa ddata.
- Cewch wneud eich penderfyniad ynghylch y gwahanol fathau o gyswllt data fesul un.

